**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd Nos Fawrth Ebrill 17eg 2018 am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cyng Rob Parkes (Cadeirydd), Philip Stevens, Lara Pritchard, Alyn Ashworth & Gwawr Cordiner & Dyfrig Berry &; a Jenny Barlow (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Rhys Thomas.

**Arsylwi:** Mr Chris Bonnell o Cariad Cards.

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod mis Ebrill.

1. **Datgan Diddordeb Personol:** Dim

2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar nos Fawrth 20fed o Fawrth 2018.**

3. **Materion yn codi**: Dim.

4. **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio**.

   Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau ar y ceisiadau isod.

   (1) 01/2018/0247
   Vets 4 pets, Uned 7, Parc Manwerthu Dinbych, Heol yr Orsaf, Dinbych.
   Gosod dwy fascia, un totem a thair arwydd ffenestr.

   Hoffai cynghorwyr y dref nodi ei bod yn hoffi i'r cwmni gael gwybod y byddai arwydd dwyieithog yn fuddiol i'r ardal, gan gadw yn ôl yr arwyddion presennol a dwyieithrwydd y dref.

   (2) 01/2018/0303
   Archfarchnad Morrisons, Ffordd Smithfield, Dinbych.
   Codi estyniad a newidiadau i'r archfarchnad ac adeiladau mynediad newydd o gerddwyr.

5. **E-bost gan Cardiau Cariad.**

   Cafwyd trafodaethau ynglŷn â'r e-bost a dderbyniwyd gan Mr Chris Bonnell a'r llythyr gan Adam Turner, Swyddog Cynllunio a Chydymffurfio Cyngor Sir Ddinbych. Gofynnodd cynghorwyr y dref i glerc y dref gysylltu ag Adam gyda'r cwestiynau canlynol.
   Pa liwiau sy'n cael eu hystyried yn 'lliwiau treftadaeth briodol'?
   'Tynnu sylw at nodweddion hanesyddol a phensaernïol arbennig yr adeilad rhestredig' - a allwch chi roi enghreifftiau o'r hyn sy'n briodol.

   Byddai hefyd yn bosibl i fusnesau newydd yn Ninbych gael pecyn gwybodaeth ynghylch pwysigrwydd rheoliadau cynllunio adeiladau rhestredig pan fyddant yn symud i mewn i adeilad newydd?

Mae angen i Gyngor Tref Dinbych weithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych er lles Dinbych. Mae angen cefnogaeth a chyfarwyddyd ar fusnesau. Mae cadw busnesau yn wybodus yn hollbwysig. Mae angen cydweithio i adfywio busnes yn y dref. Mae llawer gormod o siopau caeedig yn y dref.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.03 o'r gloch.

Arwyddwyd:…………………………………………………(cadeirydd)

Dyddiad:…………………………………